**Cwrs Cymhwysedd Asesu Effaith ar Iechyd (HIA) Pen Desg Cyflym CIEH**

**Manylion Paratoi ac Aseiniad Cyn y Cwrs**

**Darllen cyn y cwrs:**

Cymerwch amser i ddarllen y dogfennau amgaeëdig. Mae'r cyntaf yn cyflwyno'r cysyniad o benderfynyddion ehangach/cymdeithasol iechyd, sydd yn bwysig i ddeall y cyd-destun ar gyfer HIA. Mae'r ail yn enghraifft o gyflwyno'r broses a chanfyddiadau o HIA Pen Desg Cyflym.

– https://www.health.org.uk/publication/what-makes-us-healthy

https://dash.harvard.edu/bitstream/handle/1/12785830/4143846.pdf?sequence=1

Paratoi cyn y cwrs

Er mwyn eich cynorthwyo i gwblhau eich aseiniad, mae'n ddefnyddiol nodi'r testun/prosiect y byddwch yn ei ddefnyddio yn eich aseiniad **cyn** mynychu Diwrnod 1. Ar Ddiwrnod 1 bydd cyfle i wneud sgrinio a chwmpasu byr ar gyfer eich HIA fydd o gymorth i chi nodi'r hyn y bydd angen i chi ei wneud a'r ffynonellau tystiolaeth fydd eu hangen i'ch rhoi ar ben y ffordd gyda'ch asesiad pen desg cyflym a'ch adroddiad. Gallwch ddefnyddio'r amser hwn i ofyn cwestiynau a chael eglurdeb ar y dasg.

Pethau i'w hystyried ar gyfer yr aseiniad:

- Bydd yr aseiniad o fudd os yw'n ddarn cynnil o waith gyda ffiniau wedi eu diffinio'n dda.
- Os nodir darn mwy cymhleth o waith, gall fod yn ddefnyddiol canolbwyntio ar elfen neu ffocws penodol ohono.
- Bydd yr aseiniad o fudd os yw'n waith yr ydych yn uniongyrchol gysylltiedig ag ef. Bydd hyn yn ychwanegu gwerth, yn tynhau'r ffocws ac yn rhoi mynediad at ddata a thystiolaeth berthnasol.
- Ar ôl dewis, bydd angen i chi nodi eich ffynonellau tystiolaeth, rhanddeiliaid posibl, darparu ffocws ar gyfer eich chwiliad llenyddiaeth a'r data proffil cymunedol i'w ddefnyddio.

Gall y prosiect/polisi/rhaglen fod:

- Yn un yr ydych wedi bod yn gysylltiedig â'i chyflwyno a/neu ei chwblhau (HIA **ôl-weithredol**). Bydd yn gyfle i asesu'r prosiect o safbwynt gwahanol. Manteision yr ymagwedd hon fydd y wybodaeth a'r ddealltwriaeth fydd gennych o gyd-destun y polisi, y cefndir lleol, y rhanddeiliaid cysylltiedig ac ystod a ffynonellau tystiolaeth.
- Un yr ydych yn gysylltiedig ag ef ar hyn o bryd sydd wedi cyrraedd pwynt lle gallai asesiad **cydamserol** fod yn ddefnyddiol (adolygiad). Unwaith eto, byddwch yn gyfarwydd â'r nodau, y rhanddeiliaid cysylltiedig, polisi, tystiolaeth a'r

gweithgaredd hyd yn hyn. Gall yr HIA fod yn ddefnyddiol yn hysbysu ynghylch unrhyw benderfyniadau, darpariaeth neu gyfeiriad yn y dyfodol.

- Prosiect petrus neu ddatblygol; gweithredu prosiect newydd; neu gynllunio ar gyfer gweithredu polisi neu gynllun newydd, **arfaethedig**. Bydd cynnal yr HIA Pen Desg Cyflym yn ystod y cyfnod hwn yn cefnogi eich gwaith cynllunio ac yn llywio gwneud penderfyniadau, yn cryfhau gweithredu ac yn mynd i'r afael ag unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Enghreifftiau o brosiectau:

Mae mynychwyr blaenorol cyrsiau cymhwysedd wedi defnyddio ystod amrywiol o brosiectau ar gyfer eu haseiniadau. Mae'r testunau wedi cynnwys:

- Tai – datblygiadau newydd, Cynlluniau Trwyddedu Ychwanegol, effeithlonrwydd ynni, rhaglenni gwella
- Trafnidiaeth – gwella ffyrdd, cynlluniau trafnidiaeth gymunedol, teithio egnïol
- Gwasanaethau/polisïau, newydd, ailgyfluniad, cau gwasanaethau lleol, gweithredu polisi newydd
- Ailddatblygu tir halogedig
- Prosiectau moderneiddio ysgolion – ailddatblygu, cau, uno
- Mwynau – ymestyn gweithgareddau chwarela neu fwyngloddio presennol
- Datblygiadau adnewyddu h.y. Canolfannau Tref
- Cynllunio – Cynlluniau Cyflenwi Lleol, Canllawiau Cynllunio Ategol, ceisiadau datblygu

## Yr Aseiniad

### Rhan Un

Mae'n ofynnol ar gynadleddwyr gynnal HIA **pen desg cyflym** a chyflwyno adroddiad byr. Cyflwynir yr aseiniad mewn 2 ran:

- Cyn-gyflwyniad dewisol 4 wythnos ar ôl Diwrnod 1 i ganiatáu adborth a sylwadau gan aseswyr i gynorthwyo dysgu wedi ei ddilyn gan bythefnos arall i adolygu/cwblhau'r adroddiad.
- Cyflwyniad terfynol 8 wythnos ar ôl Diwrnod 1

Disgwylir i chi ddefnyddio methodoleg, fformat ac offer fel yr amlinellir yn Asesu'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol' WHIASU (WHIASU, 2012) i gwblhau'r aseiniad hwn https://whiasu.publichealthnetwork.cymru/files/1415/0710/5107/HIA_Tool_Kit_V2_WEB.pdf

Uchafswm y geiriau ar gyfer yr aseiniad hwn yw 5,000. Mae hyn yn cynnwys y prif destun yn cynnwys penawdau a theitlau. Nid yw'n cynnwys tudalen deitl na thudalen gynnwys, tablau, atodiadau na chyfeiriadau.

Mae'n rhaid ei gyfeirnodi'n gywir drwyddi draw; bydd priodoldeb y cyfeiriadau yn un o'r ffactorau fydd yn cael ei ystyried gan yr aseswyr.

Mae'n rhaid mai eich gwaith chi yw'r HIA Pen Desg Cyflym. Nid yw gwaith ar y cyd neu lên-ladrad yn dderbyniol a bydd yn cael ei wrthod.

Bydd yr asesiad yn cael ei asesu gan ddefnyddio *Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd ar gyfer HIW* WHIASU.

Mae ffocws asesiad yr aseiniad yn cynnwys:

- Y broses a ddilynwyd wrth gynnal HIA
- Cynnwys a dehongliad y dystiolaeth a gasglwyd
- Esboniad a naratif
- Casgliad

Rydym yn cydnabod, i'r rhan fwyaf ohonoch, mai dyma fydd y tro cyntaf yr ydych wedi ceisio gwneud HIA a bydd hyn yn cael ei ystyried a bydd y marciau yn adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, rhwng yr adroddiad a'r cyflwyniad, byddwn yn asesu a ydych wedi dangos dealltwriaeth o'r broses o gynnal HIA ac wedi cymhwyso'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n benodol i HIA.

Pethau i'w hystyried cyn gwneud HIA pen desg cyflym:

- Priodoldeb
- Y tebygolrwydd o'i gyflawni ac ymarferoldeb ei gwblhau
- Amseru ac Adnoddau
- Y dystiolaeth sydd ar gael

**<u>Diwrnod 2 Rhan Dau</u>**

Ar ddiwrnod 2 o'r cwrs, mae'n ofynnol arnoch i roi cyflwyniad PowerPoint byr i'r aseswyr. Dylai hwn fod yn 5 – 6 sleid YN UNIG ac yn disgrifio eich profiad a'ch adlewyrchiad o gwblhau'r HIA pen desg cyflym. Bydd hyn yn canolbwyntio mwy ar y broses o gynnal eich HIA yn hytrach na'r canfyddiadau gwirioneddol yn yr HIA.

Dylai un sleid ganolbwyntio ar egwyddor cyfranogiad HIA. Mae cyfranogiad yn egwyddor allweddol mewn HIA ac er y dylech fod wedi ystyried gwybodaeth a safbwyntiau cymunedol yn yr HIA o'r dystiolaeth yr ydych wedi ei chasglu, mae WHIASU yn cydnabod, o ystyried y llinell amser ar gyfer ei gwblhau, efallai nad yw wedi bod yn bosibl cael ymagwedd gyfranogol lawn i'r elfen hon. Byddai esboniad o'r ffordd y byddai hyn yn cael ei ystyried a'i gymhwyso mewn HIA yn y dyfodol yn ategu eich adlewyrchiadau eraill.

Dylai'r cyflwyniad fynd i'r afael â'r canlynol:

1. Unrhyw broblemau/cyfyngiadau y daethpwyd ar eu traws tra'n cwblhau'r HIA (Gallai hyn gynnwys adlewyrchu ar eich archwiliad sgiliau sydd wedi nodi bylchau mewn gwybodaeth neu feysydd i'w datblygu
2. Unrhyw fuddion wrth gynnal HIA
3. Disgrifiad o'r ffordd y bydd cymhwyso methodoleg HIA yn llywio/dylanwadu/cyfrannu at waith, prosesau gwneud penderfyniadau ac adrodd eich sefydliad a'ch partneriaid?
4. Eich ymagwedd tuag at gyfranogiad cymunedol ar gyfer HIA yn y dyfodol
5. A chasgliad terfynol am eich profiad o gynnal yr HIA

**<u>Llinell amser ar gyfer yr Aseiniad</u>**

**Dylid cyflwyno'r holl aseiniadau erbyn 5pm ar y dyddiadau cyflwyno a amlygir isod.**

| Llinell amser | Amlinelliad |
| --- | --- |
| Diwrnod 1 | Yr holl gynadleddwyr yn bresennol am ddiwrnod llawn |
| 4 wythnos | Cyn-gyflwyniad yr aseiniad |
| 6 wythnos | Adborth a sylwadau gan aseswyr yn cael ei ddychwelyd i'r cynadleddwyr (bydd gan y cyfranogwyr bythefnos i wneud diwygiadau) |
| 8 wythnos | Cyflwyniad terfynol yr aseiniad ar ôl gwneud y diwygiadau |
| 10 wythnos | Adolygiad ac adlewyrchiadau Diwrnod 2 |
| 11-12 wythnos | Adborth terfynol a'r canlyniadau'n cael eu hanfon at y cynadleddwyr |

Anfonwch eich aseiniad HIA wedi ei gwblhau at:
Liz Green yn Liz.Green@wales.nhs.uk
Nerys Edmonds nerys.s.edmonds@wales.nhs.uk
Lee Parry-Williams lee.parrywilliams@wales.nhs.uk

Ni fydd cyflwyniadau a anfonir ar ôl y dyddiad hwnnw'n cael eu derbyn. Bydd y cyflwyniadau'n cael eu cydnabod ar e-bost os gwneir cais am hynny YN UNIG.

Mae'n rhaid ei anfon ar fformat PDF a dylai gynnwys eich enw, teitl ac enw'r cwrs. Rhowch eich enw ar deitl y ddogfen.

Dylid anfon y cyflwyniadau PowerPoint ar gyfer Diwrnod 2 ar ebost i WHIASU 2 ddiwrnod cyn Diwrnod 2 **neu** gallwch ddod â nhw gyda chi ar eich dyfais eich hun. Noder nad yw gliniaduron PHW yn cyd-fynd â phinnau cof. Os nad yw'n bosibl ei anfon, dewch â thaflenni sleidiau i'w rhannu.

Ardystiad

Os yw'r aseswyr yn fodlon â'r cymhwysedd a ddangoswyd yn rhan un a rhan dau, bydd y cynadleddwr llwyddiannus yn cael tystysgrif Cymhwysedd ar gyfer HIA Cyflym (Pen Desg). Mae penderfyniad yr asesydd yn derfynol.

Bydd y cynadleddwyr nad yw eu haseiniad wedi bodloni'r safon ofynnol yn cael Tystysgrif Presenoldeb ar gyfer diwrnod 1 a 2.

Gall y cynadleddwyr aflwyddiannus gael cyfle i ailgyflwyno eu haseiniad HIA.

Lee Parry-Williams, Liz Green a Nerys Edmonds

WHIASU/PHW

Diwygiwyd Awst 2019